

ARBED BRAWDOLIAETH FYD-EANG RHAG DINISTR

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch bawb i weld yn eglur beth ydi'r wir frawdoliaeth Gristnogol a'r rhan sydd iddi yn helpu unigolion i ddianc rhag y dinistr byd-eang sydd ar ddod

'NABOD Y WIR FRAWDOLIAETH (10 mun.)

Mynegi gresyndod mae Salm 133:1, fod gwir frawdoliaeth yn brin ac arbennig

Mae angen rhagor na pherthynas teuluol i ffurfio gwir frawdoliaeth

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae gwrthdaro gwaedlyd wedi digwydd ymhlith pobloedd o gefndir hiliol tebyg

Oes 'na bobl y mae gwir frawdgarwech a chariad yn bodoli yn eu mysg nhw?

Oes; mae Tystion Jehofah yn "frawdoliaeth" fyd-eang (1Pedr 2:17; Esea 43:10, 11, 21)

Mae hyd yn oed pobl ar y tu allan wedi cydnabod y rhwymyn cryf sy'n bodoli ymhlith Tystion (*w94* 4/15 15)

'Dyw eu hundod nhw ddim wedi'i seilio ar berthynas teuluol nac ar ryw greddo gwleidyddol

A hwythau wedi'u huno gan eu hufudd-dod i Air Duw, yn fyd-eang maen' nhw oll yn dilyn yr un safonau Beiblaidd (Esea 54:13)

Wedi'u huno gan gariad Cristnogol (Col 3:14)

Maen' nhw'n wir 'gyfeillion' sy'n cefnogi ei gilydd yn amser adfyd (Diar 17:17; *ju* 310-15)

Mae eu brawdoliaeth yn agored i bobl o bob hil, cenedl, a chefnidir (Act 10:34, 35)

Mae pobl ar y tu allan wedi gwneud sylwadau ar yr undod hiliol sy'n amlwg yn eu cymanfaoedd (*yb87* 17)

Drwy gyfrwng eu gwaith pregethu byd-eang nhw mae Tystion Jehofah yn gwahodd pawb gonest eu calon i ddod yn rhan o'r frawdoliaeth fyd-eang hon (Mth 28:19, 20; Act 1:8)

Nid peth dibwys ydi'ch ymateb chi i'r gwahoddiad

Cyn bo hir fe fydd y frawdoliaeth yn goroesi'r drychineb fwyaf erioed i ddod i ran dyn

Y DINISTR MAE'N RHAID I NI DDIANC RHAGDDO! (6 mun.)

Nodwedd bywyd ein hoes ni ydi trychineb (Mth 24:7, 8)

Mae rhyfel byd, haint, a newyn ar raddfa eang, yn ogystal â thrychinebau ecolegol, daeargrynfâu, drycinoedd, a thrychinebau naturiol eraill fel y'u gelwir wedi achosi dioddefaint difesur i filiynau [Rhowch enghreifftiau diweddar o drychinebau adnabyddus]

Mae'r Beibl yn dangos fod y drychineb waethaf eto i ddod (Mth 24:21)

Mae dylanwad Satan yn gwrthio'r cenedloedd i'r rhyfel mawr yn erbyn Duw (Dat 16:13-16)

Sefyllfa byd ydi Armagedon pan fydd llywodraethwyr y ddaear yn ymuno i wrthwynebu Jehofah a'i Deyrnas drwy Iesu Grist (*rs* 44)

Fe fydd Duw yn gweithredu barn yn erbyn gwrthwynebwyr (Jer 25:31-33)

Oes 'na unrhyw ffordd i oroesi'r dinistr hwn?

RHAGFYNEGI GOROESI BRAWDOLIAETH FYD-EANG (10 mun.)

Yn y Beibl ceir cynseiliau hanesyddol ar gyfer goroesi (Rhuf 15:4)

Yn oes Noa, daeth y ddaear "yn llawn trais"; dyfarnodd Duw y byddai'n dinistrio'r drygionus (Gen 6:5-7, 11, 12)

'Roedd ymddygiad, dull byw, ac ufudd-dod dewr Noa a'i deulu yn nodi eu bod nhw'n wahanol i'w cyfoeswyr treisgar (Gen 6:9; Heb 11:7)

Ufuddhaodd i orchymyn Duw i adeiladu arch, a'u cludodd nhw'n ddiogel drwy'r dilyw byd-eang

Dangosodd Iesu y byddai sefyllfa debyg yn bod yn ein hoes ni (Lc 17:26, 27)

Golyga hyn y bydd 'na oroeswyr! (1Pedr 3:20, 21)

Dangoswyd grym achubol Jehofah eto wrth wared yr Israeliaid o'r Aifft (Salm 106:8-11)

Yn ein cyfeirio ni at waredigaeth yn y dyfodol (1Cor 10:1, 2, 11)

Arbedwyd Cristnogion y ganrif gyntaf pan ddinistriwyd Jerwsalem yn 70 C.C.

Rhagfyneodd Iesu drychineb ac achub rhai (Mth 24:15-22; *w96* 8/15, 15-18)

Mae dinistr Jerwsalem yn ein cyfeirio ni at "orthrymder mawr na fu ei debyg o ddechrau'r byd"

Fel yn y ganrif gyntaf, fe fydd 'na oroeswyr

GOFYNIION BOD YN GADWEDIG GYDA'R FRAWDOLIAETH FYD-EANG (12 mun.)

Fel yn y gorffennol, rhaid i'r rhai fydd yn goroesi weithredu mewn ffordd arbennig

Rhaid galw ar enw Jehofah (Joel 2:32; Rhuf 10:13)

Rhaid gweithredu ffydd ym Mab Duw

Mae'n golygu rhagor na mynegi'n emosynol yr hyn a gredwn

Rhaid cydnabod Crist yn Bridwerthwr dynoliaeth (Mth 20:28; Rhuf 5:9, 10)

Rhaid cydnabod Iesu'n "Arglwydd," gan gadw ei holl ddysgeidiaethau a chynabod ei safle yn Ben y gynulleidfa (Rhuf 10:9; Mth 28:20; Eff 1:22)

Ond 'dyw cael ffydd yn unig ddim yn ddigon

Rhaid i'r rhai sy'n ceisio gwaredigaeth heddiw ddod yn rhan o'r frawdoliaeth Gristnogol fodern

Yn y ganrif gyntaf 'ychwanegwyd' rhai newydd i'r ffydd at gydgreidwyr (Act 2:37, 40-42, 47)

'Gan nad Duw anhrefn yw Duw,' mae Cristnogion yn ffurfio trefn weladwy (1Cor 14:33)

Mae cynulleidfaoedd Tystion Jehofah heddiw yn gweithio dan gyfarwyddyd Corff Llywodraethol o henuriaid ysbryd-eneiniog

Y Watch Tower Bible and Tract Society a'i changhennau ydi'r asiantaethau cyfreithiol a thrwyddyn' nhw y mae'r Corff Llywodraethol yn darparu cyfarwyddyd

Felly mae dod i gymdeithasu â chyfundrefn Jehofah yn gam pwysig i ennill gwaredigaeth

Gellir dechrau gwneud hyn drwy fynychu cyfarfodydd ac astudio cyhoeddiadau seiliedig ar y Beibl a gynhyrchir gan y gyfundrefn

Mewn amser, caiff y gonest eu calon eu hysgogi i ymgysegru i Dduw a dangos hynny'n gyhoeddus drwy feddy trochiad (Rhuf 10:10)

Wedi bedydd, daw dyn yn rhan o'r 'frawdoliaeth' Gristnogol

GALL Y WIR FRAWDOLIAETH FYD-EANG EICH HELPU CHI I OROESI (7 mun.)

Mae pobl o bob hil a chenedl 'nawr yn cael eu casglu i oroesi (Dat 7:9, 14)

Maen' nhw'n ffurfio gwir frawdoliaeth fyd-eang, yn cyflawni'r hyn na fedrai unrhyw fudiad brawdoliaeth ddynol fyth obeithio'i wneud

Mae pobl o bob hil a chenedl 'nawr yn dysgu byw gyda'i gilydd yn un teulu o frodyr a chwiorydd

'Ydych chi'n ymdrechu i gael eich canfod yn eu plith nhw?

Bydd gwneud safiad gyda'r frawdoliaeth hon yn gofyn dewrder

Bydd gwrthwynebiad a dioddef erledigaeth

Rhaid ymdopi â'n gwendidau cnawdol ein hunain

Ond, gallwch fod yn sicr, gyda help ysbryd Duw, y gallwch chi gadw uniondeb, a sefyll yn hy yn erbyn Satan (Eseia 40:29-31; Sech 4:6; 1Pedr 5:8, 9)

Mae gwobrwyon cadw uniondeb yn fawr

Mwynhewch yr undod a'r heddwch sy'n bodoli ymhlith gwir Gristnogion

Rhagflas byw ar ddaear Baradwys i ddod (*kl* 184-5 par. 12-14)

Ym myd newydd Duw, bydd *pawb byw* yn rhan o'r wir frawdoliaeth (Salm 37:29, 34; Diar 2:21, 22)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)